

12. GWAG Y SWIGENWIALEN
(Pentecost)

Yr oedd Gwag y Swigenwialen yn gorwedd mewn pwll lleidiog yn teimlo'n unig a dryslyd. (Gyda llaw, pelen fechan wag o blastig a chanddi goes fain fel pensel i'w chynnal yw swigenwialen.) Bu'n gorwedd yno ers i'w berchennog fynd am dro i'r goedwig a'i golli o'i phoced. O ganlyniad i'r codwm collodd ei gof. Ni allai gofio o ble y daeth nag i bwy yr oedd yn perthyn. Y cwbl a wyddai oedd yr hyn a wnâi a beth oedd ei enw.

Felly roedd yn rhyddhad o'r mwyaf pan glywodd rywun neu rywbeth wrth ei ymyl ar y llwybr.

'Helô! Helô! Fi yw Gwag y Swigenwialen!' gwaeddodd yn uchel. 'Pwy wyt ti?'

Peidiodd y creadur â chnoi'r gwair o amgylch y pwll lleidiog, gan sboncio tuag at Gwag a ffroeni o amgylch ei ben.

'Sgolor y gwningen ydw i,' meddai. 'Beth ddywedaist ti oedd dy enw?'

'Gwag y Swigenwialen,' atebodd Gwag. 'Gwneud swigod yw fy ngwaith.'

'Taw â dweud. Dyna ddiddorol!' Cymerodd Sgolor olwg fanylach arno.

Gyda hynny pwy oedd yn digwydd pasio heibio ond Clebryn y llygoden, cyfaill Sgolor.

Roedd Gwag yn edrych ymlaen yn fawr am gael rhagor o gwmni. Cyn gynted ag y daeth Clebryn o fewn clyw galwodd arno. 'Helô, Lygoden. Tyrd i ymuno yn yr hwyl.'

Cyn i Clebryn gael cyfle i holi 'Pa hwyl?' roedd Sgolor wedi dweud y cyfan wrtho. 'Clebryn, dwi am i ti gyfarfod ein cyfaill newydd, Gwag y Swigenwialen. Mae o'n gallu gwneud swigod, wyddost ti.'

'O ie! Wela i. Neis iawn,' gwichiodd Clebryn.

Roedd ar fin dweud wrth Gwag mor falch yr oedd o'i gyfarfod ac fel yr oedd yntau wastad wedi dymuno gwneud swigod ei hunan, ond heb erioed fedru canfod digon o amser i wneud hynny, pan ddaeth Araf y Falwen heibio.

'Helô, Malwen. Rwyt ti newydd gyrraedd mewn pryd i gael parti. Sut wyt ti'n cadw?' holodd Gwag gan fethu credu mor lwcus yr oedd y dydd hwnnw.

'Go lew,' meddai Malwen. Ac yna'n llafurus gostyngodd ei ben a syllu'n haerllug ar Gwag. 'Ond pwy wyt ti?'

'Dyma Gwag y Swigenwialen,' gwichiodd Clebryn.

'Mae o'n gwneud Swigod, wyddost ti,' eglurodd Sgolor.

Rhythodd Araf arno am hir. Ac yna gan nad oedd mor hawdd ei blesio â Clebryn nac mor glên â Sgolor, holodd hen gwestiwn digon lletchwith.

'Wela i ddim swigod,' meddai. 'Ble maen nhw?'

Crychodd Clebryn ei drwyn. Siglodd Sgolor ei glustiau. A gallech weld fod y ddau mewn cryn benbleth.

Ac am Gwag, cafodd gymaint o sioc fel mai prin y gwyddai beth i'w ddweud. Dyna'i ffordd ef o gael sylw – dweud wrth ddieithriaid pwy ydoedd a beth yr oedd yn ei wneud. Doedd o erioed wedi disgwyl y byddai neb am ei weld yn gwneud swigod go iawn.

'Dwi wedi colli fy nghyfarwyddiadau . . .' mwmiodd wedi ennyd hir o dawelwch.

Crychodd Sgolor ei drwyn yn hyderus. 'Os felly, os doi di hefo ni, fe awn â ti at rywun all ddatrys dy broblem.'

A'r rhywun hwnnw oedd Tw–it–tw–hŵ y dylluan.

‘Sut alla i eich helpu chi?’ hwtiodd y dylluan pan ymddangosodd Sgolor, Clebryn, Araf a Gwag wrth odre ei goeden.

‘Dyma Gwag y Swigenwialen,’ eglurodd Sgolor. ‘Ond mae o wedi colli ei gyfarwyddiadau. Felly roedden ni’n meddwl tybed allech chi ddweud wrtho sut i wneud swigod.’

Edrychodd Tw–it–tw–hŵ ar Gwag dros ei sbectol. Yna diflannodd i mewn i’r goeden gan ymddangos ymhen ychydig funudau gyda llond gwydr o hylif gwyrdd.

‘Cymysgedd swwwigod,’ hwtiodd. ‘Y cyfan sy’n rhaid i Gwag ei wwwneud yw plymio dros ei ben i’r gwydr nes bydd yr hylif yn llenwi ei ben neu’i galon neu beth bynnag mae o’n galw’r gwagle yna y tu mewn iddo.’

‘Hawdd,’ snwffiodd Sgolor. ‘Diolch yn fawr iawn i ti, Tw–it–tw–hŵ. Wel, tyrd yn dy flaen, Gwag. Pam wyt ti’n oedi?’

Druan o Gwag! Bellach roedd yn edifar ganddo iddo erioed gyfarfod â Sgolor, Clebryn ac Araf – ond y peth gwaethaf un oedd cyfarfod Tw–it–tw–hŵ. Roedd y gymysgedd yn y gwydr yn ymddangos mor wlyb a llysnafeddog. Y peth olaf ar y ddaear roedd arno eisiau ei wneud oedd plymio dros ei ben i hwn.

‘Efallai nad yw Gwag eisiau gwneud swigod wedi’r cyfan,’ dywedodd y dylluan.

Roedd dweud hynny’n ddigon. ‘O ydw dwi eisiau,’ meddai Gwag. A gyda hynny – llamodd i’r gwydr.

Pan ddaeth allan ychydig eiliadau’n ddiweddarach roedd yn llawn cyffro. ‘Roedd hynna’n rhyfeddol,’ llefodd. ‘Dyna brofiad mwyaf cyffrous fy mywyd. Dwi’n teimlo’n grêt. Ac edrychwch, dwi ddim yn lleidiog mwyach. A dyw ’nhu mewn i ddim yn wag. Diolch, o diolch Tw–it–tw–hŵ, am ddangos i mi sut i fod yn swigenwialen go iawn.’

Roedd Sgolor a Clebryn yn dawnsio o amgylch y lle mewn llawenydd, ond roedd Araf mewn dryswch llwyr.

‘Wela i ddim swigod,’ meddai.

O diar! Am ennyd roedd golwg fel petaent am roi cic i’r falwen ar bawb. Ond yna dechreuodd hylif gwyrdd ddiferu i lawr coes Gwag. ‘Mae Araf yn dweud y gwir,’ meddai’n drist wrth Tw–it–tw–hŵ. ‘Does dim swigod wedi’r cwbl. Ryden ni wedi methu.’

‘Mae un peth arall y gallwn ei wneud,’ meddai’r dylluan. ‘Nawr

dy fod yn llawn o'r gymysgedd swwwigod, rhaid i ni dy hongian wyneb i lawr ar gangen coeden a disgwyl i'r gwynt ddod heibio.'

Erbyn hyn byddai Gwag wedi rhoi cynnig ar unrhyw beth – unrhyw beth – a olygai y gallai wneud swigod.

'Bydd yn werth yr ymdrech,' sibrydodd yng nghlust Sgolor wrth iddynt ei godi ar gangen a'i adael yno i hongian.

'Dwi'n gobeithio, beth bynnag,' meddai wrth i'r creaduriaid islaw ei wylio.

Am ennyd hir ddigwyddodd dim.

Ac yna – yn sydyn – roedd sŵn dail yn sibrwd ac yna – WWWSH – llifodd cwmwl o'r swigod harddaf erioed o'r Swigenwialen.

'Hwrê!' bloeddiodd Sgolor a Clebryn. Ddywedodd Araf ddim byd. Dim ond llithro i ffwrdd ar ôl y swigen fwyaf a cheisio ei dal ar ei gyrn.

'Mwy o gymysgedd swwwigod! Brysiwch! Llanwch ef. Llanwch ef,' hwtiodd Tw–it–tw–hŵ.

Yna – WWWSH – wrth i'r gwynt beri i gwmwl arall o belenni disglair ddawnsio trwy'r llecyn agored. Roedd Gwag yntau mor llawen. Bu'n galw ei hunan yn Swigenwialen ar hyd ei fywyd ond o'r diwedd roedd wedi canfod beth oedd gwir ystyr hynny!

'Rwy'n SWIGENWIALEN. Rwy'n gwneud SWIGOD,' llefodd. 'Edrych, Clebryn! Edrych, Araf! Dwi'r hyn ydw i. Dwi'n gwneud swigod. Dwi'n gwneud yr hyn dwi wastad wedi dweud 'mod i'n ei wneud!'

HYD: 6–7 munud. Gallwch ddefnyddio darluniau o swigenwialen a chreaduriaid y goedwig i adrodd y stori hon. Chwythwch swigod go iawn ar ddiwedd y stori.

NEGES: Dylai Cristnogion gynhyrchu ffrwyth ysbrydol. Mae'r Ysbryd Glân yn peri i gariad . . . llawenydd . . . tangnefedd . . . daioni, ac yn y blaen, lifo o'n bywydau.

DARLLEN: Actau 2: 1–4; Galatiaid 5: 16–24